yDinesydd

CYLCHGRAWN NEWYDDION CYMRAEG CAERDYDD RHIF 184 5 MEHEFIN 1992 65c

# Rhoi cychwyn ar fenter dechrau busnes Cymraeg

**Mae'r cymorth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg i fusnesau newydd yng Nghaerdydd ar fin cael chwistrelliad a fydd yn ehangu'r gwasanaeth presennol yn agos at gant-y-cant.**

Bydd Dechre Cychwyn, cynllun a gynhelir dan adain Menter a Busnes ar gyfer Caerdydd, yn cael ei lansio ym mis Mehefin.

Dywedodd Siân Johnston, trefnydd Menter a Busnes yn y ddinas, mai ymgais yw'r cynllun i deilwro'r ddarpariaeth sydd ar gael i siwtio siaradwyr Cymraeg yn well. Dylai hyn arwain at gwell ddefnydd o'r adnoddau gan y siaradwyr Cymraeg a fydd yn fwy parod i chwilio am gyngor yn eu hiaith eu hunain.

Yn dilyn ymchwil a wnaed gan Menter a Busnes ar gyfer nifer o gyrff datblygu yng Nghymru, dangoswyd yn glir bod angen cyswllt rheolaidd rhwng yr ymgynghorydd busnes a'r cleient, a bod hyn yn bwysicach i'r siaradwyr Cymraeg gan eu bod yn llai tebygol nag eraill i ddod o gefndir busnes.

Nodwyd yn glir hefyd yr angen am ddarpariaeth Gymraeg, yn enwedig cysylltiadau wyneb-yn-wyneb. Roedd gallu'r cynghorydd i sgwrsio yn y Gymraeg yn cyfrannu'n sylweddol ar yr empathi a'r dealltwriaeth angenrheidiol rhwng yr ymgynghorydd a'r cleient.

Hyd yn hyn ni fu unrhyw wasanaeth Cymraeg i ddarpar wyr a gwragedd busnes yng Nghaerdydd, ac eithrio un aelod o staff Cardiff and Vale Enterprise a benodwyd yn ddiweddar.

Bydd Dechre Cychwyn yn gynllun peilot a gynhelir mewn pedwar rhan o Gymru, gan gynnwys Caerdydd. Bydd y pwyslais ar roi cyngor i unigolion a grwpiau bychan anffurfiol.

Ychwanegodd Siân Johnston "Byddwn hefyd yn cynnwys elfen arloesol o gysylltu'r rhai sydd am ddechrau busnesau gyda mentoriaid sydd wedi mynd trwy'r broses neu sy'n gweithio yn yr un maes."

"Gall pobol sydd mewn busnes gynnig cyngor hollol ymarferol i'r rhai sydd ar fin dechrau, ac fe fydd yn cyfoethogi'r cyngor cyffredinol am redeg busnes".

Bydd Dechre Cychwyn hefyd yn estyn cymorth i fusnesau sydd eisoes wedi eu sefydlu yng Nghaerdydd gan Gymry Cymraeg. Dywed Menter a Busnes bod ganddynt gysylltiad â 130 o gwmnïau preifat yng Nghaerdydd sydd â Chymry Cymraeg mewn swyddi allweddol ynddynt, er eu bod yn cydnabod ei bod yn debygol iawn fod llawer mwy na hynny'n bod. Hyd yma ni wnaed ymchwil manwl i'r union ffigur.

Cafwyd cymorth ariannol pellach o £3000 gan Gyngor Hyfforddiant a Menter (TEC) De Morgannwg i weithredu'r cynllun tan ddiwedd y flwyddyn, yn ychwanegol at amser staff a swyddfa Menter a Busnes a CAVE.

Er mai Siân Johnston fydd yn cydlynu'r cynllun yng Nghaerdydd, bydd gan TEC De Morgannwg a CAVE rannau allweddol i'w chwarae yn y datblygiadau, gyda Janet Leigh Jones o CAVE, ac Ifan Payne, ymgynghorydd busnes annibynnol o'r Bontfaen, yn cynnig cyngor busnes ymarferol.

Hyd yn ddiweddar bu Ifan Payne yn cynghori busnesau yn America, a dywed ei fod yn gweld potensial mawr i'r fenter hon yng Nghymru. Dywedodd wrth y Dinesydd "Gyda Deddf Iaith newydd rwy'n tybio y bydd y farchnad yn ehangu wrth i gwmnïau ddatblygu agweddau ac adnoddau Cymraeg."



• O'r chwith, Janet Leigh Jones, Siân Johnston, ac Ifan Payne, Dechre Cychwyn

# Darganfod Cymru

## Teithiau Cerdded Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Mae staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn eich gwahodd i ymuno â hwy ar gyfres o arweindeithiau.

**Y BONT-FAEN DE MORGANNWG**
*Dydd Mercher 10 Mehefin*
Cyfarfod am 7pm wrth Neuadd y Farchnad.
*Cyfeirnod Grid: Dalen 170/SS 996 746*
Taith gerdded o gylch y dref hanesyddol yma yn y Fro, gan edrych yn arbennig ar bensaernïaeth a ffurf y dref
*Arweinwyr: E William a G D Nash*

**SAIN FFAGAN DE MORGANNWG**
*Dydd Iau 2 Gorffennaf*
Cyfarfod am 7pm wrth y fynwent.
*Cyfeirnod Grid: Dalen 171/ST 121 772*
Taith gerdded o gylch yr hen bentref, gan edrych yn arbennig ar ei bensaernïaeth a'r cynllun y'i codwyd arno. Ni chynhwysir Amgueddfa Werin Cymru ar y daith hon
*Arweinwyr: E William a G D Nash*

**MYNWENT Y CRYNWYR MORGANNWG GANOL**
*Dydd Mercher 15 Gorffennaf*
Cyfarfod am 7pm wrth Ysgol Gymraeg Rhydygrug, Mynwent y Crynwyr.
*Cyfeirnod Grid: Dalen 171/ST 096 965*
Hanes diwydiannol, daearegol a naturiaethol yr ardal
*Arweinydd: B Jones*

**DOCIAU CAERDYDD DE MORGANNWG**
*Dydd Mercher 22 Gorffennaf*
Cyfarfod am 7pm wrth Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru
*Cyfeirnod Grid: Dalen 171/ST 192 745*
Hanes y dociau – archaeoleg diwydiannol
*Arweinydd: D Jenkins*

**PENARTH DE MORGANNWG**
*Dydd Sul 20 Medi*
Cyfarfod am 2pm wrth Dŷ Turner
*Cyfeirnod Grid: Dalen 171/ST 186 714*
Daeareg dennydd adeiladu, parciau a choed
*Arweinydd B A Thomas*

Bydd pob taith yn dechrau ac yn gorffen yn y man cyfarfod a nodir. Dylech wisgo'n addas ar gyfer yr awyr agored. Dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau am y teithiau hyn i'r
Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd CF1 3NP.
Ffôn 0222 397951

---

Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Bwrdd Cenhadaeth ac Undeb

## GWEITHIWR CYMUNEDOL

Ceisiwn berson cymwys i fod yn aelod o dîm o bobl i ddatblygu gweithgarwch Cymunedol ar Stâd Maesgeirchen, Bangor. Y mae sgiliau a phrofiad o weithio gyda'r ifanc yn angenrheidiol.

Manylion pellach oddi wrth:

**Parch D Andrew Jones**
**Eglwys Bresbyteraidd Cymru**
**53 Richmond Road, Caerdydd CF2 3UP**
**Ffôn 0222 494913**

Dyddiad cau: Mehefin 29, 1992

---

Mudiad Ysgolion Meithrin

*yn eisiau*

## Clerc / Teipydd

Am fanylion pellach a ffurflen gais cysyllter â:

**Y CYFARWYDDWR**
**MUDIAD YSGOLION MEITHRIN**
**145 ALBANY ROAD**
**CAERDYDD CF1 3NT**

Rhif ffôn 0222 485510

Dyddiad Cau: Mehefin 15fed 1992

---

## Care & Repair Cymru

Care & Repair Cymru yw'r corff cenedlaethol yng Nghymru sy'n datblygu a chefnogi gwasanaethau asiantaeth gwella cartrefi ar gyfer pobl oedrannus ac anabl.
Rydym yn edrych am

## Weinyddwr

**Graddfa Cyflog £13,134 - £15,066**

Bydd yn rhaid i'r sawl a benodir fod â phrofiad hysbys o drefnu. Bydd ef/hi yn rhoi cymorth ysgrifenyddol i'r Cyfarwyddwr a Swyddogion Datblygu, yn rhedeg swyddfa'r corff yng Nghaerdydd, ac yn cynorthwyo'r Cyfarwyddwr mewn gwaith gweinyddu ariannol a chyfrifyddol, gan gynnwys cyflogau, PAYE, cadw cyfrifon, ac ati. Mae'r gallu i ddefnyddio prosesydd geiriau yn angenrheidiol.

**Dyddiad Cau: Dydd Gwener, Mehefin 19eg 1992**

Gellir cael ffurflen gais a manylion gan
Care & Repair Cymru, Tŷ Norbury, Heol Norbury, Caerdydd CF5 3AS (0222 576286)
Mae Care & Repair Cymru'n datblygu ei arferiad ar gyfer Cyfleoedd Cyfartal ac yn croesawu ceisiadau o bob sector o'r gymuned.

---

Cylch Meithrin y Tyllgoed

Yn eisiau ar gyfer mis Medi 1992

## ARWEINYDDES I GYLCH MEITHRIN Y TYLLGOED

Mae'r cylch yn cyfarfod am ddwy awr bob dydd, dydd Llun hyd ddydd Gwener gydag oddeutu 16 o blant.

Os am sgwrs ynglyn â'r swydd a rhagor o wybodaeth, ffoniwch Siân Rolph ar Gaerdydd 552393

---

y Dinesydd

**BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.**

ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRY CYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH CATRIN YN SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD

## 0222 598243

***Cyfraddau hysbysebion sylw (mono):*** tudalen lawn £350; hanner tudalen £180; chwarter tudalen £100; wythfed tudalen £60; pob colofn cm £7
***Cyfradd hysbysebion cyhoeddi:*** £15

*Ffigur nifer y darllenwyr yn [illegible] y Dinesydd, Mai 1991*

---

Yn eisiau

## ARWEINYDD A CHYNORTHWYDD

i gylch meithrin newydd
sy'n agor ym mis Medi 92
yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

Diddordeb?

Cysylltwch â Tina Rossiter
Ffôn 626149

## Cysylltwch â ni â'ch newyddion: 0222 578772

## Cadi Llwyd yn sbecian

Dechreuodd Richard Evans, ffermwr o swydd Henffordd, ddod ato'i hun o drwmgwsg yn sgil damwain car – wrth glywed tôp o ddefaid yn brefu!

Y person cyntaf gaiff deithio ar y trên trwy dwnel y Sianel (beth ddigwyddodd i'r hen enw Cymraeg da Môr Udd am y culfor, dwedwch?) fydd boi o'r enw Nigel Pettitt o Chilwell – fe fwciodd ei docyn chwe mlynedd yn ôl!

Arwydd y tu allan i dŷ bwyta diarffordd yn Seland Newydd: Bwytewch yma, rhag i ni'n dau lwgu!

"Gofynnais i'm cyn-wraig a fyddai hi'n barod i'm priodi eto, ond gwrthod wnaeth hi. Dwedodd mai'r unig reswm oeddwn i ar ei hôl hi oedd am fy arian i". Dyfalwch pwy?

"A dyma'r cwestiwn ola," meddai cyflwynydd cwis teledu wrth bâr o gystadleuwyr nerfus. "Pwy oedd cymar Adda yng Ngardd Eden?" Dim ateb. "Dyma gliw i chi...meddyliwch am afal." Distawrwydd cyn i un fentro..."Granny Smith...?"

Mae llond trol o dail gwartheg wedi ei gludo i Sain Ffagan yn ôl y papur goleuedig, trwydd-ei-ymchwil hwnnw y Sun – er mwyn ychwanegu at awyrgylch y pentref Celtaidd dwy fil o flynyddoedd oed. Pob un sholen o ddom wedi ei gasglu, ei farcio, a'i ail-osod yn yr amgueddfa yn ofalus iawn.

Ar ôl i un o'u tai losgi'n wenfflam yn ddiweddar, peryg y bydd y tail 'ma'n achosi mwy na gas leak?

Mae milfeddyg o Abertawe yn gorfod gwisgo mwgwd i fynd i'w waith bob dydd. Mae ganddo fe alergedd yn erbyn...anifeiliaid.

Mae 'na un peth pwysig ar goll yn swyddfa bost newydd Trefyclo ym Mhowys. Blwch postio llythyrau.

Llewygodd yr efeilliaid Nerys a Nia Davies ar yr un pryd yn y deintydd ym Mhontypridd, er mai dim ond un ohonyn nhw oedd yn cael triniaeth.

### DYSGWYR

# TRYDAN YN RHOI YNNI I'R IAITH



• Mrs Sigi Evans yn cyflwyno'r siec o £20,000 i Emyr Jenkins yng nghwmni criw o Ganolfan Dysgu Cymraeg Heol y Parc

**CYFLWYNODD** Trydan De Cymru £20,000 i hybu Pabell y Dysgwyr yn Eisteddfod Gened-laethol Ceredigion ym mis Awst.

Cyflwynywd y siec i Emyr Jenkins, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, gan Mrs Sigi Evans – gwraig Cadeirydd Trydan De Cymru, ac sydd wedi dysgu Cymraeg ei hun – gerbron criw o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg yn Heol y Parc.


Dywedodd Mrs Evans "Mae'n hyfryd gweld fod Trydan De Cymru mor gefnogol i ddysgwyr. Mae gan y cwmni bolisi pendant i gefnogi'r Gymraeg, ac mae'r cyflwyniad hwn yn arwydd o gyflawni'r polisi hwnnw".

### AIL GYDIO

## NÔL I TENOVUS AR ÔL DWY FLYNEDD

**PENODWYD** Sue Davies yn Swyddog Hybu Iechyd canolfan wybodaeth canser Tenovus, gan ddychwelyd i'r elusen ar ôl dwy flynedd o absenoldeb.

Yn flaenorol bu'n gweithio fel Swyddog Gwybodaeth Tenovus cyn symud i'r gorllewin. Mae hi bellach nôl yn byw yn y Rhâth, ac yn ei swydd newydd bydd yn cynnal gweithgareddau hybu iechyd yn y gymuned. Bydd ei gwaith yn cynnwys hyrwyddo ffyrdd o adnabod canser yn gynnar ac i reoli uned deithiol sy'n cynnig profion iechyd i ferched.



• Sue Davies

### LLON A'R LLEDDF

• Pob dymuniad da i Wyn Innes a Kathryn Agnew ar eu priodas yng Ngogledd Iwerddon ar 1 Mai. Mae'r ddau yn gweithio fel cyfrifwyr gyda PriceWaterhouse yn Llundain.

• Ganwyd efeilliaid (un o bob un) i Ceri ac Elgan Lloyd, Pentrepoeth (hynny yw Morganstown).

• Ganed mab cyntaf Ken a Sian Owen ar 15 Ebrill o'r enw Gruffydd.

• Pob dymuniad da am adferiad buan i Dafydd Saer, ein colofnydd coginio, ar ôl llawdriniaeth ddiweddar ar ei lygaid. Gobeithio y daw ei synnwyr pwyll yn ôl gyda'i olwg

### POBOL

## O IECHYD I'R AMGYLCHEDD



**PENODWYD** Helen Roberts (llun) yn Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus Comisiwn Cefn Gwlad Cymru. Bydd yn symud i Fangor gyda'i gwaith, ac yn gadael Caerdydd ar ôl gweithio yma am dair mlynedd fel Swyddog Cyfryngau Awdurdod Hybu Iechyd Cymru.

## FFORDD FAWR I MANON



**MAE MANON JONES** o Landaf (llun) ar ei ffordd i'r Alban ar gyfer chwarae rhan yn yr opera sebon *Take the High Road* dros yr haf.

Bydd yn actio merch o Gymru sy'n ymweld â'i hewythr yn yr Alban ar ôl marwolaeth ei mam.

Mae Manon yn aelod o weithdy drama HTV a bu'n actio yn y gyfres *Chestnut Soldier*. Roedd hefyd yng nghanol helynt y Beverley y llynedd pan y'i gwaharddwyd rhag siarad Cymraeg yn y gwesty.

## ADLONIANT I'R STAFF

**PENODWYD** Ifan Roberts, Comisiynydd Adloniant Ysgafn S4C, yn Bennaeth Personel a Gweinyddiaeth newydd y sianel. Bydd yn ymgymryd â'i swydd ddechrau 1993 ar ôl ymddeoliad Mair Owen a fu gyda'r sianel ers y cychwyn.

## Copi mis Gorffennaf / Awst i gyrraedd erbyn 22 Mai 1992

y Dinesydd

Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf
Caerdydd CF4 2JL
0222 578772 fax 0222 567639
hysbysebu 0222 567639

Golygydd Shân Emlyn
Cynhyrchu Surrexit

# APATHI NEU DIM OND ARAFWCH?

Mae'n debyg mai un o hoff ymadroddion y Cymry yw "Does dim rhaid i fi wneud – fe wnaiff rhywun arall".

Os oes digon o Gymry yn dweud hynny yr un pryd, does dim affliw o ddim yn cael ei wneud.

Cododd y sefyllfa honno ei phen unwaith eto ym mis Mehefin yng Nghaerdydd.

Nid yw 'siomedig' yn cyfleu'n ddigonol ymateb Cymry Caerdydd i ymgyrch Dinesydd 2000. Mae'r gair 'pathetig' yn llawer nes ati. Diolch yn fawr i'r rhai a wnaeth, ond prin iawn yw'r nifer ymhlith y 10,000 ohonoch ddarllenwyr y Dinesydd sydd wedi trafferthu i ddangos eich cefnogaeth ymarferol drwy danysgrifio i Dinesydd 2000.

Does dim byd yn haws na chodi'ch copi o'r Dinesydd yn fisol o lle bynnag y cewch chi fe, bodio drwyddo'n hamddenol, a theimlo'n ddigon plês eich bod wedi darllen rhifyn arall o unig bapur Cymraeg y ddinas. Ond wnaethoch chi erioed ystyried bod yn rhaid i rywun weithio oriau digon hir er mwyn cyhoeddi'r papur hwn ar eich cyfer?

Yn fras, dyma faich y gwaith misol arferol er mwyn cyhoeddi'r Dinesydd:

*1. Marchnata, gwerthu hysbysebion.*
*Nifer yr oriau bob mis: 100.*
*Bil ffôn bob chwarter: £350*
*2. Golygu, dylunio.*
*Nifer yr oriau bob mis: 50*
*3. Argraffu*
*Nifer yr oriau bob mis: 40*
*Argraffu 4000 copi bob mis: £1000*
*4. Dosbarthu*
*Nifer yr oriau bob mis: 10*

Dyna 200 o oriau o amser gwaith rhywun i chi gael darllen y Dinesydd.

Nid ar chwarae bach mae dod o hyd i bron i £1500 ar gyfer pob un rhifyn o'r Dinesydd. Mae angen pob cefnogaeth arnom, a'r peth cyntaf y dylem ddisgwyl yw cefnogaeth ein darllenwyr.

Fel arall, pam ddylai'r Dinesydd drafferthu i fod yna ar gyfer Cymry Caerdydd?

Wrth gwrs, falle mai fi sydd wedi gorymateb, ac mai arafwch diniwed sy'n gyfrifol am hyn oll, ac y bydd y ffurflenni tanysgrifio'n llifo i mewn yn ystod mis Mehefin. Gobeithio.

**ACJ**

## COLOFN SHÂN

# DYDDIAU DIFYR

SHÂN EMLYN

***BU'R MIS*** dwytha 'ma yn un hynod brysur a llawer o'r prysurdeb hwnnw'n gymysgwch o'r melys a'r chwerw. Hwyliog a difyr, fel arfer oedd ymweliad y teulu bach o'r Felinheli am wythnos, a chwith ffarwelio â hwy, yn enwedig gan bod Emyr wedi lletya yma efo mi am ymron i dri mis.

Lleddfwyd peth ar y ffarwelio gan bod ffrindiau ar gyrraedd yma. Daeth ffrind ysgol yma am noson – nid oeddem wedi gweld ein gilydd oddi ar 1958! Wrth fynd i'w chwfwr i'r orsaf, teimlwn reit betrus. A fyddem yn nabod ein gilydd i ddechrau? Gwaeth fyth, a fyddai'r sgwrs yn pallu ar ôl y cyfarchion agoriadol? Cwbl ofer oedd fy ofnau, mae'n dda gen i ddeud.

Cawsom swper, a'r siarad yn ddibaid, tan dri o'r gloch y bore. Atgofion y naill a'r llall ohonom yn sbarduno enwau, troeon trwstan



• Shân Emlyn

a hwyl, a oedd wedi'u storio yng nghilfachau'r cof, daeth fy nyddiau ysgol yn ôl i mi fel ffilm o'm blaen.

Dyddiau difyr oeddan nhw hefyd, ond melysach fyth edrych arnynt drwy niwl y gorffennol.

Profiad arall a gefais oedd un newydd sbon danlli. Bûm ddwywaith i'r Orendy ym Margam i arwerthiant Sotheby's o grochenwaith cywrain Abertawe a Nantgarw. Braf clywed gymaint o Gymraeg o'm cwmpas y ddeudro.

Fûm i erioed mewn arwerthiant o'r blaen, does dim fel camu ar un cam i binacl y byd hwnnw nac oes? Ar y diwrnod cyntaf, prynu'r llyfryn drud – ond yn werth ei gael – ac yn gofnod lliwgar a gwerthfawr o brofiad ac o gasgliad unigryw Syr Leslie Joseph. Pori ynddo am oriau cyn dychwelyd.

Gweld popeth yn sobor o ddrud wrth gwrs. Ffansio canhwyllbren Nantgarw bitw fach – ddim mwy na bocs matsus. Fe aeth honno am £3000. Plât efallai, yn bartner i'r un Abertawe sydd gen i eisoes? Ond na, honno'n mynd am £7000! Mae modd mynd dros ben llestri ond oes?!

Mwynheais y profiad yn fawr, diwrnod i'w gofio, a pham lai ynte?

Ond, efallai o'r holl brofiadau, yr un ddaw â gwên i'r wyneb, ydy cofio clywed Ifan yn adrodd pennill a ddysgodd mewn ychydig funudau gan ei Nain Shân...

*A dyna'r drefn yn hyn o fyd*
*Yr addfwyn rai*
*Sy'n dwyn y bai*
*O hyd o hyd*

A Mari'n deud "Wel Mam, mi rydach chi'n dysgu petha gwirion iddo fo". Tybed?

## DEUD FY NEUD

# DOGMA WLEIDYDDOL AC ADDYSG

GETHIN LEWIS

*Prifathro Ysgol Gynradd Gabalfa*
*Aelod o bwyllgor gwaith undeb yr athrawon NUT*

***BU 1988*** yn flwyddyn bwysig ym myd addysg,pan basiwyd y Ddeddf Addysg a ddaeth â'r cwricwlwm cenedlaethol, yr hawl i eithrio o reolaeth awdurdodau addysg, system i asesu a phrofi plant, a'r rheoli lleol ar ysgolion – yr LMS.

Prin fod unrhyw ysgol yng Nghaerdydd wedi cael cymaint o gyhoeddusrwydd ag ysgol gynradd Gabalfa. Y llynedd roedd rhieni Gabalfa yn brwydro dros yr hawl i athrawon gael parhau i asesu ac i ddysgu plant, yn hytrach na gwastraffu amser ar brofion diwerth.

Nid oedd y rhieni'n ceisio torri'r gyfraith, ond gwrthododd y llywodraeth â derbyn fod gan ein rhieni yr hawl i eithrio'u plant o'r profion.

Eleni mae'r profion a'r targedau cyrhaeddiad wedi newid ac mae'r llywodraeth wedi cyfaddef bod gan rieni yr hawl i eithrio'r plant o'r profion. Gwrthwynebodd rhieni,



• Gethin Lewis

### profion yn dysgu'n plant ifanc am fethiant

athrawon a llywodraethwyr Gabalfa y profion am eu bod yn anaddas, ac yn dysgu'n plant ifanc am fethiant.

Mae'n holl bwysig ein bod yn glynu at system sy'n gwerthfawrogi pob plentyn beth bynnag fo'i gefndir. Mae'n rhaid i'r ysgolion helpu'r plant ifanc i ddatbygu hunan-hyder ac i gael cyfle teg a chyfartal i lwyddo.

Yn anffodus mae'r system bresennol yn cael ei newid oherwydd dogma wleidyddol. Mae'r newidiadau a ddechreuodd ym 1988 yn niweidiol i'n hysgolion.

### ysgolion yn dewis y plant mwyaf galluog

Mae'r profion yn cyfyngu'r cwricwlwm, a fydd profion a thablau cynghrair o ysgolion – fel tablau peldroed – o ddim cymorth i'n plant nac i'w rhieni werthfawrogi gwaith athrawon cydwybodol.

Dydy'r system ariannu LMS ddim yn gallu sicrhau mwy o arian i ysgolion, ac mae'r gallu i eithrio o reolaeth awdurdodau addysg yn gam tuag at ysgolion annibynnol a fydd yn dewis y plant mwyaf galluog.

Mae'n bryd i ni gyd sylweddoli nawr bwysigrwydd cydweithio er mwyn sicrhau y bydd holl blant Cymru yn derbyn addysg o safon uchel, yn rhad ac am ddim.

Cyn hir bydd y llywodraeth yn dymchwel y system lywodraeth leol; dyma'r amser i ni gyd sicrhau y bydd addysg yn cael ei reoli'n genedlaethol gan Senedd etholedig yng Nghymru.


Yn bersonol rwyf wedi profi'r ddihareb "Gorau cyfoeth, iechyd". Rwy'n awyddus i sicrhau cyfoeth ein dyfodol. Mae addysg yn fuddsoddiad ar gyfer y dyfodol – dyfodol ein plant a'n cenedl. Ond mae'r newidiadau presennol yn niweidio addysg ac yn effeithio ar iechyd ein holl ysgolion.

Mae'n rhaid i ni gael system well, a system genedlaethol i Gymru yn unig all sicrhau dyfodol iach i'n plant a'n cenedl.

# Sut fedrwch chi helpu'r Dinesydd? Cefnogwch Dinesydd 2000 llenwch eich ffurflen danysgrifio nawr!

GŴYL IFAN

# GŴYL IFAN 92 YN 16



RHODRI JONES



• Defod y Pawl Haf dan law Sain Ffagan y llynedd

*Dewch fonedd, gwreng, ieuenctid llon*
*Yn don i ŵyl 'rhen Ifan,*
*Fe fydd yr haul ar ganol haf*
*Yn braf ar faes Sain Ffagan.*

*Fe godir Pawl i nodi'r ffaith*
*Fod hwyl ar waith ym mhobman,*
*A dawnsiwn dani'n ysgafn droed*
*Wrth gadw oed Gŵyl Ifan*

**PWY FASE'N MEDDWL** un mlynedd ar bymtheg yn ôl y base Cwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd yn dal i ddathlu Gŵyl Ifan gyda'u cyfeillion o fyd y ddawns?

Mae'r peth bron yn ystrydeb erbyn hyn, ond bob blwyddyn mae criw bach gweithgar o fewn y Cwmni yn ceisio cael rhywbeth newydd er mwyn cadw'r awch, ac mae eleni yn dilyn yr un patrwm.

Y newid mwyaf o bosib yw mai gŵyl ar gyfer cwmnïau a phartïon o Gymru yn unig yw hon eleni. Er ein bod wedi mwynhau yng nghwmni ein cyfeillion o Lydaw, yr Alban, Cernyw ac Iwerddon, teimlwyd ei bod hi'n bryd i ni roi fwy o sylw i'n dawnswyr cynhenid. Felly yn gam neu'n gymwys, mae'r cyfrifoldeb o gynnal y dathliadau arnom ni.

Nôl ym 1976 dim ond rhyw ddeg o ddawnswyr ddaeth i'r ŵyl gynta ym mhentref Nantgarw. Erbyn hyn mae'r nifer wedi cynyddu i dros y deucant.

Ar ôl sôn am y nifer sy'n dod, rhaid nodi ein tristwch yma am un na ddaw i'r ŵyl eleni. Bu Seimon Haines yn aelod mygedol o Gwmni Caerdydd ers rhyw ugain mlynedd, a bu'n troedio ffigurau'r ddawns yn ein plith bron ym mhob Gŵyl Ifan. Mawr yw'n colled ar ôl ei farwolaeth. Mae'r twmpath a gynhelir yng Ngwesty'r Parc ar nos Wener 19 Mehefin er cof amdano.

Ar ddydd Sadwrn 20 Mehefin bydd yr orymdaith draddodiadol ar hyd strydoedd canol Caerdydd yn dechrau am 11.00 o'r gloch. Y gobaith eleni yw na ddaw'r glaw i amharu ar linellau syth y gorymdeithwyr. Codir y Pawl Haf yn Sain Ffagan am 3.30pm, a bydd pawb yn ail-ymgynnull yng Nghastell Caerdydd am 4.45pm i gyd-ddawnsio.

ANNWYL DDINESYDD

## TRAWSBLANNU'CH FFEITHIAU!

Diolch yn fawr am yr erthygl Degawd Calonogol yn y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd. Roedd y ffeithiau i gyd yn gywir, ond un – a'r un mwyaf pwysig – sef enw'r meddyg a oedd yn gyfrifol am y trawsblannu.

Dydw i ddim yn meddwl fod Dr Christian Bernard wedi bod ar gyfyl Harefield, ac yn sicr ddim yn un o'r hoelion wyth.

Syr Magdi Yacoub oedd yn gyfrifol am y trawsblannu yn ysbyty Harefield. Dr Christian Bernard wnaeth y trawsblaniad cyntaf yn Ne Affrica flynyddoedd yn gynharach.

***Ken Innes, yr Eglwys Newydd***

BRO GLYNDŴR

# GOREUON BRO'R DINESYDD

***Medal Wyddoniaeth i Ysgolion Cynradd***
Ysgol Sant Baruc

***Medal Nefyl Williams i blant dan 12 ag anghenion arbennig***
Ffion Davies a Fflur Owen, Ysgol Coed y Gof

***Llenyddiaeth, Dosbarth 6***
2il Iolo Whelan, Ysgol Gyfun Glantaf

***Pennill Dychan***
3ydd Beth Angell, Ysgol Gyfun Glantaf

***Project 10-12 oed***
2il Yr Anturwyr, Ysgol Sant Baruc

***Project Dosbarth 1***
2il Carabwncsba, Ysgol Glantaf

***Gwyddoniaeth a thechnoleg 8 - 10 oed***
2il Grwp Christopher Dickens, Ysgol Bro Eirwg

***Ail-iaith, Fideo, Dosbarthiadau 4 a 5***
2il Dosbarth 6 Coleg Dewi Sant, Caerdydd

***Gwaith 3-D, 10-12 oed***
Cydradd 3ydd Adam Webb, Ysgol Eglwys Wen

***Crochenwaith a serameg, 8-10 oed***
1af Geraint Lewis, Ysgol Melingruffydd

***Cystadleuaethau i bobol ag anghenion arbennig. Gwaith 2-D dan 12 oed***
1af Ffion Davies a Fflur Owen, Ysgol Coed y Gof

***Gwaith 3-D dan 12 oed***
3ydd Kelly Taylor a Betsan Dafydd, Ysgol Coed y Gof

***Ysgolion Cynradd, Fideo***
2il Rhian Bowker, Ysgol Bro Eirwg

***Gwyddoniaeth***
***Astudiaeth ar ddihareb neu hen gerdd***
1af Ysgol Sant Baruc

***Gwyddoniaeth***
***Astudiaeth o fesur amser***
1af Ysgol Sant Baruc

***Creu cylchgrawn neu bapur newydd***
2il Ysgol Gyfun Glantaf

***Cerddoriaeth, Unawd pres***
3ydd Gareth Mann, Ysgol Gyfun Glantaf

***Cydadrodd i gyfeiliant offerynnol ysgolion uwchradd***
2il Ysgol Glantaf

***Addysg Gorfforol***
***Merched, ysgolion uwchradd***
3ydd Rachel Owen, Ysgol Gyfun Glantaf

***Dawns Greadigol 10-13 oed***
3ydd Ysgol Gyfun Glantaf

***Unawd Cân Werin, 19-25 oed***
1af Elen Rhys, Aelwyd Caerdydd

***Adrodd 19-25***
2il Elen Rhys, Aelwyd Caerdydd

## HEL MEDDYLIAU

# PELL AC AGOS

### HUW ETHALL

**MAE DISGWYL** i faen coffa ar fur capel neu eglwys ddweud y gwir am yr ymadawedig. Beth feddyliech chi o'r cwpled hwn oedd ar fur capel Bethlehem, Sblot – capel yr Annibynwyr Cymraeg yn Eyre Street? Dyma fe:

*"Dygai'r haf i'r ystafell*
*Ac agosáu'r pethau pell"*

Mae'n gampus, onid yw? Teyrnged i'r diweddar Barchedig WD Davies, y gweinidog olaf ond un (y Parchg Noel Evans oedd y gweinidog olaf) yw'r cwpled, gan ei gyfaill mawr y diweddar Barchg Simon B Jones, Peniel, Caerfyrddin, ac un o 'Fois y Cilie'.

Mae'r geiriau cystal ag adnod ac yn cadw'r darlun o WDE yn fyw iawn yng nghof y rhai a'i hadnabu. Mae'r capel wedi cau ers 1987 ac wedi ei droi'n fflatiau.

Roedd yn haf parhaol yng nghwmni WD yn ôl ei gyfaill. Faint o gynhesrwydd a sirioldeb yr haf ddaw i'r ystafell pawn ddown ni iddi?

Mwy na hynny, gwnâi WD y pell yn agos. Gweinidog, wrth gwrs, oedd WD, a rhan o waith pob gweinidog – ac yn arbennig fel pregethwr – ydy gwneud y pell yn agos. Pethau pell iawn iawn ydy pethau ysbrydol mewn oes faterol.

Ysgrifennydd eglwys Bethlehem adeg WD oedd y brawd Elfed David sy'n ddiacon bellach yn eglwys Minny Street. Gofynnais iddo a oedd y cwpled yn dweud y gwir am ei weinidog. "O oedd" meddai. "Roedd WD yn un siriol iawn bob amser ac yn gwmni difyr". Oedd e'n dod â'r pell yn agos, gofynnais. "Oedd yn sicr" meddai. "Roedd yn ddyn ysbrydol iawn ac yn bregethwr da".

Cymwynas fawr bob amser ydy gwneud y pell yn agos ym mhob byd. Yn ei theyrnged hyfryd i Alun Williams yn y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd, meddai Teleri Bevan amdano yntau *"Roedd e'n medru creu darluniau geiriol a thynnu o'i wybodaeth eang i ddod â'r pell yn agos i'w wrandawyr"*.

A hithau'n haf erbyn hyn, daw geiriau cyntaf Ellis Wynne yn ***Gweledigaethau'r Bardd Cwsg*** i'r cof: *"Ar ryw brynhawngwaith teg o haf hirfelyn tesog, cymerais hynt i ben un o fynyddoedd Cymru a chyda mi sbienddrych i helpu'm golwg egwan i weled pell yn agos a phethau bychain yn fawr"*.

Mae'r emynwyr wedi ei gweld hi hefyd. Dyma W Rhys Nicholas ym mhennill olaf ei emyn mawr ***Tydi a wnaeth y wyrth***:

*Tydi sy'n haeddu'r clod, ddihalog Un,*
*Mae ystyr bywyd ynot Ti dy hun,*
*Yr wyt yn llanw'r gwagle trwy dy Air,*
*Daw'r pell yn agos ynot, O Fab Mair!"*

Mae mwy nag un math o bellter onid oes?

# CLWB IFOR BACH

**11 HEOL WOMANBY, CAERDYDD CF1 2BR**
**0222 232199**

**IFOR BACH A'R DINESYDD**

Dyma'r tro cyntaf i ni gynnwys cylchlythyr y clwb o fewn Y Dinesydd, ac rydym yn ddiolchgar iawn am y cydweithrediad hapus sydd wedi arwain at hyn.

Mae pwyllgor y clwb yn awyddus iawn i weld cylchgrawn newyddion y brifddinas yn ffynnu, ac felly hoffwn annog ein holl aelodau i gefnogi'r cynllun tanysgrifio newydd sydd gan y Dinesydd er mwyn sicrhau dyfodol y papur.

**CEFNOGWCH Y CLWB HEFYD!**

Mae cyrraedd cynulleidfa ehangach y Dinesydd yn rhoi cyfle i egluro rôl y clwb i'r rhai ohonoch sydd ddim yn gyfarwydd â'i weithgareddau.

Rydym yn glwb cofrestredig i aelodau sy'n siaradwyr Cymraeg. Mae'n ddarpariaeth yn bennaf ar gyfer yr ifanc, gyda grwpiau a disgos bob penwythnos, and rydym hefyd yn ceisio plesio rhai sydd ychydig yn hyn, ee, bydd Dafydd Iwan yn diddanu ei gefnogwyr ar 2 Gorffennaf.

Yn ystod yr wythnos mae nifer o gymdeithasau a phwyllgorau yn cwrdd yn rheolaidd yn y clwb, a hefyd nifer o ddosbarthiadau ar gyfer dysgwyr. Cewch fanylion am rai o'r cymdeithasau hyn gyferbyn, ynghyd â'u rhifau ffôn hollbwysig.

Hoffwn achub ar y cyfle arbennig hwn i roi gwahoddiad i unrhyw gymdeithas, mudiad neu bwyllgor Cymraeg sydd eisoes yn cwrdd yn y ddinas i ddefnyddio'n cyfleusterau – nid oes raid i chi fod yn aelodau i wneud hyn.

Mae croeso hefyd i chi gynnal nosweithiau i godi arian ar gyfer unrhyw achos da – cewch delerau arbennig. Y neges syml yw fod gan y clwb rywbeth i'w gynnig i holl siaradwyr Cymraeg y ddinas. Cewch fanylion am aelodaeth drwy lythyr neu dros y ffôn.

**NEWYDDION DA**

Braf yw gallu sôn am ddatblygiad a llwyddiant wrth gyfeirio at ein gweithgareddau dros y misoedd diwethaf. Mae'r ffigurau ar gyfer y tri mis diwethaf yn dangos bod cynnydd o dros 50 y cant i'w weld yn y niferoedd sy'n mynychu'r clwb o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Mae'n briodol felly estyn gair o ddiolch i'r rheolwr am ei waith o drefnu rhaglen o adloniant sy'n amlwg yn plesio, a hefyd i'r criw ffyddlon sy'n gweithio tu ôl i'r bariau ac ar y drws bob wythnos. Mae'n hen bryd iddyn nhw dderbyn clod am eu gwaith diflino a'u parodrwydd i weithio ac i wenu hyd yn oed am ddau o'r gloch y bore!

Ffactor arall sydd wedi arwain at y cynnydd yn ein busnes yw'r lolfa ar ei newydd wedd ar y llawr isaf. Ein bwriad yw mynd ymlaen â rhaglen barhaus o godi safon tri llawr yr adeilad – os daw digon ohonoch drwy'r drws blaen.

**TAITH GERDDED NODDEDIG**

Ar nos Wener 26 Mehefin, cynhelir taith gerdded noddedig i gefnogi dysgwyr Caerdydd a chefnogwyr Nant Gwrtheyrn.

Dim ond tair tair milltir fydd hon, yn dechrau o laen y castell am 6.30pm, ac yn dychwelyd i'r clwb ar gyfer parti diwedd tymor. Mae croeso i bawb gefnogi'r achos naill ai drwy gerdded neu drwy fynychu'r noson gymdeithasol. Y bwriad yw defnyddio'r arian a gesglir yn lleol i gyflogi unigolyn i gynorthwyo CYD yn Ne Morgannwg. Mae'n nod uchelgeisiol ond yn un sy'n haeddu'ch cefnogaeth. Cewch ffurflenni noddi a manylion pellach o'r clwb.

**CYMDEITHASAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R CLWB**

**Clwb Criced Ifor Bach: Robin Huws, ffôn 493808.**
***Heb ddechrau'r tymor yn rhy dda ac yn edrych am dalent newydd!***
**Clwb Peldroed Inter-Ifor: Siôn Lewis, ffôn 373142**
**Cymdeithas Ieuenctid Hŷn: Eleri Twynog, ffôn 619934**
**Dawnswyr Twrch Trwyth: Nerys Curig, ffôn 554763**
**Cymdeithas Hanes Carnhuanawc: Alan Jobbins, ffôn 623275**
**Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Beth Jones, ffôn 223657**
**Dosbarthiadau dysgu Cymraeg: Nic ap Glyn, ffôn 702971**
***Mae rhai cyrsiau byr yn dechrau ym mis Mehefin. Bydd rhaglen lawn ar gyfer mis Medi***

## BYD Y BOL



# SAER Y SEIGIAU SAWRUS

### DAFYDD SAER

**WEDI CYFFRO'R** dadlennu ynglŷn â llenorion y garden village yn rhifyn diwethaf y Dinesydd, ni fu taw ar fy ffôn yn canu, a phentwr o bost yn cyrraedd yn ddyddiol o barthau academaidd ein cenedl – ac yn wir oddi wrth ysgolheigion iedled Ewrop.

Yr un oedd y cwestiwn ar dafod pawb, ond megis yn yr ysgol, nid oeddwn yn ei deall. Yn y diwedd syrffedais ar ateb "Ga i'r cwestiwn unwaith eto os gwelwch yn dda", ac erbyn hyn yr wyf yn dychwelyd y derbynnydd i'w gawell bob tro y clywaf eiriau megis "This is the Leipzig Institute of Welsh Literature..." ac yn y blaen.

Wedi darllen mewn rhifyn diweddar o'r Dinesydd am lwyddiant ysgubol meithrinfa Ruth Parry, penderfynais innau geisio efelychu ei llwyddiant drwy agor crêsh yn yr hen sied sydd ar waelod yr ardd. Fodd bynnag, wedi i'r gwasanaethau cymdeithasol ddod i archwilio'r safle ar gyfer y defnydd a fwriadwyd, fe'm cadwyd yn y ddalfa a'm holi am rai oriau – ond stori arall yw honno.

Eto, ar gyfer y fenter dan sylw datblygais nifer o rysetiau addas i blantos ifainc sydd newydd symud oddi ar y fron, ac yn barod i ymgymryd â bwydydd mwy solet.

Bydd angen hylifeiddiwr arnoch i sicrhau llwyddiant y mis hwn. Cofiwch hefyd fy mod yn croesawu'n eiddgar ymateb fy narllenwyr i'm danteithion misol.

***Caws ar dost i fabanod o 6 mis ymlaen***

*Darn o dost*
*Menyn*
*Llwy de o fwstard*
*2 owns o gaws crafellog*
*6 pupur chili cyfan*
*Paned o de*

*Arllwyswch y cwbl mewn i'r hylifeiddiwr, a hylifeiddiwch am tua deg eiliad. Wedyn arllwyswch y cwbl mewn i hoff lestr y fechan neu'r bychan, hwpiwch hwyaid sylweddol i'r twll is-swch, a disgwyliwch am yr hwyl.*

***Bendigedig ym mis Mehefin!***

POBOL

# CERDD A DANT

## "Bydd ei lais baritôn yn siŵr o leddfu unrhyw boen!"

CATRIN LLOYD ROWLANDS

**DWI DDIM** yn nabod yr un enaid byw sy'n edrych ymlaen at fynd i weld y deintydd, ond pan fydd Andrew Mathews a'i wraig Lynda yn agor eu practis yn Danescourt ganol mis Gorffennaf, falle y bydd pethe'n newid rywfaint.

Y bwriad yw troi ymweliad i'r deintydd yn brofiad pleserus.

Tipyn o job ddwedwn i, ond mae'n help fod y ddau yn bobol hawddgar ac agos-atoch.

Ar hyn o bryd mae Andrew yn gofalu am ddannedd Aberpennar a Lynda'n gofalu am berlau Llanelli, ond y gobaith yw y bydd y ddau yn gallu gweithio gyda'i gilydd yn Danescourt erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf. "Mae hynny'n dibynnu ar faint o alw fydd 'na am ein gwasanaeth ni" meddai Andrew.

Er y gagendor sydd 'na rhwng eu deintyddfeydd, mae Andrew a Lynda yn byw yn yr Eglwys Newydd ers iddyn nhw briodi y llynedd. Cyfarfu'r ddau yn Ysgol Ddeintyddiaeth Caerdydd. Pwy ddwedodd nad oedd agor eich pen i ddieithryn yn gallu bod yn bleserus?!

Disgleiriodd Andrew mewn maes gwahanol yn yr 80au, yn canu ar lwyfannau'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn fwy diweddar, fel aelod o'r grwp Baroc, bu'n canu ar y teledu. Ers iddo ymuno â'r pedwarawd ym mis Rhagfyr, bu Baroc yn canu ar raglenni *Heno* a *Bryn Terfel*.



• Andrew Mathews a'i wraig Lynda yn profi'r hyn a ddaw – rhwng muriau moel eu safle adeiladu

Ar un adeg bu Andrew a Bryn Terfel yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn eisteddfodau. "Mae Bryn rhyw ddwy neu dair blynedd yn iau na fi, ac rwy'n cofio cystadlu yn ei erbyn pab oedd e'n 14 oed a'i lais e newydd dorri.

"Roeddwn i tua 17, a'm llais dipyn yn aeddfetach, wrth gwrs, ac fe ddaeth Bryn yn drydydd yn yr eisteddfod honno ym Mro Gwyr. Mae gen i dâp o'r cystadlu yn rhywle, ac roedd hi'n amlwg yr adeg honno bod dyfodol disglair o'i flaen. Mae e'n ganwr ffantastig ac yn bersonoliaeth mor hoffus."

Daw Andrew a'i frawd Stephen (sy'n feddyg yn Ystum Taf) o Dreforus yn wreiddiol, ac fe ddysgon nhw Gymraeg pan yn rhyw 6 oed. "Er mai Cymry yw fy rhieni, doedden nhw ddim yn gallu siarad Cymraeg, ond fe gawson ni addysg Gymraeg. Am ryw reswm neu'i gilydd, dwi'n siarad Cymraeg ag acen Gog, ac mae Lynda'n gwneud sbort am fy mhen i!"

O Fanceinion y daw Lynda, ond ei bwriad yw dysgu Cymraeg cyn bo hir. Er hynny mae ganddi'r eirfa ddeintyddol yn barod, fel "Agor dy geg". Beth arall sydd eisiau?!

Bydd deintyddfa Andrew yn rhan o ganolfan feddygol yn Danescourt sy'n cynnwys gwasanaethau meddyg, fferyllydd, ffisiotherapydd a chiropodydd o dan yr un to. Bydd y lle yn hwylus felly i bobol yr ardal gael gwared â'u dannoedd a'u cyrn o un cadair – bron!

"Dan reolau newydd y gwasanaeth iechyd ynglyn â deintyddiaeth," medd Andrew "gall oedolion a phlant gofrestru am ddim gyda deintydd, yn union fel â meddyg. Mae'n bosib na fydd angen triniaeth arnyn nhw, ond mae cofrestru'n golygu eich bod yn sicr o gael gofal parhaol i'ch dannedd drwy gydol eich oes".

"Mae'r driniaeth am ddim i blant dan 17 oed, i ferched beichiog ac i famau hyd at flwyddyn ar ôl cael babi. Hefyd mae myfyrwyr a theuluoedd sy'n cael budddaliadau'n gallu cael triniaeth am ddim".

Mae Andrew a Lynda'n gweld eu deintyddfa fel gwasanaeth i'r gymuned. "Mi fyddwn ni ar agor bob dydd o'r wythnos, a bore dydd Sadwrn, ac yn cynnig oriau hyblyg ar gyfer pobol sy'n methu dod i'n gweld ni yn ystod oriau gwaith".

Bu bron i ddeintyddiaeth golli Andrew, fu ar un adeg yn ystyried mynd yn ganwr proffesiynol. "Mi gês i 'nerbyn i astudio canu yng Ngholeg Cerdd Gogledd Lloegr ym Manceinion, ond roeddwn i'n teimlo y byddai gyrfa fel canwr yn rhy galed".


Er hynny, pan fydd y dril yn brysur yn safnau Danescourt, hwyrach y bydd llais baritôn ifanc Andrew Mathews yn siŵr o leddfu unrhyw boen.

• ***Mwy am Baroc, tudalen 11***

CÔR Y BYD

# ROEDDWN I YNO!

WYNNE LLOYD



## NOSON EITHRIADOL AC ANGHREDADWY!

**AR BAPUR** roedd y peth yn edrych fel syniad cwbl wallgo. Sôn yr ydw i am achlysur Côr y Byd ar nos Sadwrn 23 Mai.

Daeth breuddwyd un dyn, David Wyndham Lewis, yn realiti er gwaethaf y storm o fellt a tharanau wrth i'r rhaglen ddechrau. Ac er y dilyw, yr hwyl a'r brwdfrydedd a orfu.

Roedd hi'n noson eithriadol ac anghredadwy. Pwy yn ei iawn bwyll fyddai'n hel at ei gilydd dros saith mil o gantorion o Gymru, Lloegr a thramor, band milwrol o gant a hanner, a phedwar unawdydd – Gwyneth Jones a Dennis O'Neill yn ddau o fyd opera, Tom Jones y canwr poblogaidd, ac Oliver Sammons o Gresffordd, yr ieuengaf o'r pedwar, y trebl buddugol yng nghystadleuaeth BET?

Dyma fenter na welwyd mo'i thebyg erioed ar Barc yr Arfau. Ond gweithiodd y peth yn rhyfeddol o gofio am ddicter y duwiau, y cymhlethdodau technegol enfawr, a'r broblem anferth o ieuo'r cyfan at ei gilydd yn blethiad credadwy.

Roedd cyfrifoldeb Owain Arwel Hughes fel cyfarwyddwr cerdd ac arweinydd yn enfawr, ond roedd yr her a'i frwdfrydedd byrlymus dros y syniad yn ddi-baid. Dewisodd yr hen ffefrynnau ar gyfer y saith mil a mwy o feibion, ac roedd canu'r côr unigryw hwn yn un o uchafbwyntiau'r sioe. Roedd y cydsymud yn destun syndod ac yn arbennig felly wrth ganu'n ddigyfeiliant.

Cafodd y trebl ifanc noson dda gyda dewis addas ar ei gyfer. Felly hefyd Dennis O'Neill a gafodd y dasg o herio'r elfennau wrth fynd â ni i Sorrento, a'i ddatganiad arwyddocaol o *Nessun Dorma*.

Roedd dewis operatig Gwyneth Jones *In Questa Reggia* yn dipyn o bwdin ar achlysur fel hwn, ond fe gyrhaeddodd yr uchafbwynt yn rymus.

Doedd dim posib i Tom Jones fethu gyda'i *Green Green Grass of Home*, ond cam ag ef oedd gofyn iddo ganu *I Vow to Thee My Country*.

Cafodd bandiau'r pedair catrawd hwyl ar eu gwaith, a'r timpani'n tasgu'r glaw yn y munudau agoriadol. Ychwanegodd eu gwisgoedd lawer at basiant y noson.

Daeth y noson gofiadwy hon i ben yn orfoleddus o deimladwy gyda phawb yn ymuno i ganu *We'll Keep a Welcome* i gyfeiliant llachar tân gwyllt.

Noson o ddathlu, o orfoleddu ac o fwynhau oedd hi. Roedd ei chynnal yn orchest, ac roedd cael bod yn rhan ohoni'n wefr. Pan fyddwn ni'n cael ei gweld ar fideo, fe fydda i a miloedd ar filoedd hefyd yn medru dweud â thipyn o falchder "Roeddwn i yno".

**Dinesydd 2000** *Enillwyr tocynnau Dinesydd 2000 i fynd i weld Côr y Byd oedd Beryl Hall, Cyncoed; Christopher Woodard, Llandaf; a Cerith Williams, Grangetown. Ein diolch i gwmni John Watkin am eu cymorth gyda'r gystadleuaeth.*

PRENTIS Y CYLCHGRAWN CENEDLAETHOL I DDYSGWYR
DECHREUWYR A PHROFIADOL
THE NATIONAL MAGAZINE FOR WELSH LEARNERS
BEGINNERS AND ADVANCED
Ar gael mewn siopau llyfrau Cymraeg neu drwy'r post. Danfoner £5 ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad:
Available in Welsh bookshops or by post. Send £5 together with your name and address to:
GWASG TAF
99 HEOL WOODVILLE, CAERDYDD. CF2 4DY
✆ (0222) 221778

CABARET

# SWING JAZZ A RAZMATAZZ



• Baroc o'r chwith Andrew Mathews, Gill Elfyn, Betsan Perrett a Malcolm Perrett

**BYDD Y GRŴP** lleisiol Baroc o Gaerdydd yn ymddangos yn Neuadd Dewi Sant ar 10 Gorffennaf, mewn cyflwyniad sy'n siŵr o ddenu dilynwyr Glenn Miller, Leonard Bernstein, Frank Sinatra a Barry Manilow i dyrru yn heidiau i'r perfformiad.

Mae'r grŵp o bedwar o Gaerdydd – Andrew Mathews, Gill Elfyn, a Betsan a Malcolm Perrett – yn perfformio miwsig harmoni, sydd hefyd yn cynnwys darnau gwreiddiol yn eu rhaglen a sawl trefniant o hen alawon Cymreig.

Daeth Baroc i'r brig yn ddiweddar fel enillwyr talaith Cymru y TDK Songwriters Competition. Roedd hwn yn llwyddiant i'r grŵp mewn blwyddyn brysur a'u gwelodd ar lwyfannau sawl clwb cerddoriaeth a chabaret yng Nghymru a thu hwnt.

Yn Neuadd Dewi Sant bydd Baroc yn perfformio gyda cherddorfa Nigel Hart, un o'r cyfarwyddwyr cerdd mwyaf profiadol, ac a fu'n adnabyddus fel pianydd y grŵp Brotherhood of Man.

Mae ganddo ran allweddol yn llwyddiant Baroc, ac ef sy'n gyfrifol am eu holl drefniadau offerynnol, ac wrth gydweithio gydag un o goreograffwyr mwyaf celfydd y byd teledu yng Nghymru, Iain Stewart Ferguson, bydd cyngerdd Baroc o swing, jazz a razmatazz yn noson i'w chofio yn Neuadd Dewi Sant.

JIWBILI

# HWYL A HOLI

MARGED EVANS

**BU CRAFU PEN** a phrofi'r cof yng Nghanolfan yr Urdd ar 1 Mai, wrth i ddeg o dimau gasglu ynghyd yn Noson Gwis gyntaf y Jiwbili.

Er i sawl tîm ateb yn wych iawn, roedd cwestiynau amrywiol a difyr Huw Reynolds yn drech na'r mwyafrif!

Tîm o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni aeth â hi dan arweinyddiaeth Hefin Mathias, ond roedd tîm o athrawon a rhieni Glantaf yn go agos atynt. Daw cyfle am ddial eto ym mis Tachwedd.

Bythefnos yn ddiweddarach daeth criw ynghyd i fwynhau Noson Lawen gan Gwmni Dawns y Ganolfan yn ngwesty'r Astora yn Heol Penarth. Cafwyd croeso cynnes iawn gan y perchennog Mair Rees.

Cafwyd gwledd o ddawnsio, actio a chanu, a llowciwyd gloddest o gawl blasus, bara a roddwyd gan Apple Catering, ffrwythau gan Dil James, The Market y Barri, a bara brith o bopty'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan.

Ym mis Mehefin cynhelir tri gweithgaredd i ddathlu'r Jiwbili, sef:

***2 Mehefin***
***taith feiciau o Ganolfan yr Urdd i gastell Coch***

***9 Mehefin***
***gêm beldroed rhwng tîm Cwmderi a thîm o Sêr y Cyfryngau, Gerddi Sophia***

***14 Mehefin***
***Cymanfa Fodern yn Salem, Treganna. Arweinydd Euros Rhys Evans***

Bydd croeso mawr i bawb ymuno yn y gweithgareddau. Am wybodaeth bellach cysylltwch â'r Ganolfan.

AGOR Y DRYSAU

# CARTREF NEWYDD GWEITHDY'R BRETHYN

**ATGYFODWYD** peth o hanes Ceredigion ar ddydd Sadwrn 30 Mai yn Sain Ffagan, pan agorwyd siop deiliwr David Thomas, Cross Inn.

Rhoddwyd yr adeilad i'r amgueddfa gan Gwyneth Thomas, merch y teiliwr, a hi a agorodd yr adeilad yn swyddogol.

Mae'r adeilad pren yn dyddio o 1896 ac fe'i ddefnyddwyd yn wreiddiol fel stordy bwyd anifeiliaid. Ychwanegwyd y siop yn yr 20au cynnar pan brynwyd yr adeilad gan David Thomas, a bu'n gweithio yno gyda'i brentisiaid tan 1967.

Am gyfnod hir y siop oedd canolfan y pentre, a deuai cwsmeriaid o cyn belled â Llundain. Cynhyrchid pob math o ddillad yn y gweithdy gan ddefnyddio pob math o ddefnydd fel brethyn cartref a thwid main.

Arddangosir yn y siop yr hen nwyddau o'r 50au oedd wedi aros ar y silffoedd ers cau'r busnes, a gellir gweld hefyd heyrn trydan a ddefnyddid gan David Thomas ar ôl gosod trydan ym 1939.

Daeth peth o'r cyfarpar a welir yn y siop – fel y peiriant gwinio a'r sisyrnau – o siop teiliwr DJ Rees, Brechfa, a'r gweddill o weithdy Dan Davies, Rhydlewis.



# GŴYL IFAN 1992

GŴYL O DDAWNSIO A HWYL I DDATHLU UCHAFBWYNT TRADDODIADOL YR HAF.

**SADWRN 20 MEHEFIN**

RHWNG 1 A 5 O'R GLOCH YN

**Amgueddfa Werin Cymru**

**Sain Ffagan**

*Agorir yr Amgueddfa am 10 o'r gloch*

☞ UGEINIAU O DDAWNSWYR GWERIN YN EU GWISGOEDD LLIWGAR (2.30-4.30)

☞ CODI'R PAWL HAF (AM 3.30)

☞ ADLONIANT, SYRCAS A DIFYRWYR AMRYWIOL DRWY'R PRYNHAWN

**Mynediad am y tâl arferol**

**Am ragor o wybodaeth ffoniwch 0222 569441**


---


MWY O

# SAM TÂN

A

# JOSHUA JONES




**CYFRES DARLLEN A LLIWIO SAM TÂN A JOSHUA JONES**

Stori gyflawn ynghyd â lluniau i'w lliwio. Addas i blant o dair oed i fyny. £1.50 yr un

**SAM TÂN**

**Mellt a Gwisg Ffansi**

**Cychod yn y Stryd**

Y ddau ddiweddaraf yn y gyfres fytholwyrdd hon.

£2.99 yr un

**LLYFRAU HAWDD-I'W-DARLLEN**

**Gosod Silffoedd**

**Y Chwarel**

Straeon am Sam Tân i blant sydd newydd ddysgu darllen.

£2.99 yr un

---

*Gwledd o ddarllen difyr i oedolion, pobl ifanc a phlant*



## I'R PLANT

**SMOT AR Y FFERM**
addas. Dilwen M. Evans
£3.95 c.c.

**LLYFR MAWR GEIRIAU SMOT**
addas. Dilwen M. Evans
£4.50 c.c.

**BEGW'R IÂR YN MYND AM DRO**
addas. Mary Vaughan Jones
£2.95

**ELI**
Ruth Hamnett ac Irma Chilton
95c

**WMFFRA**
Emily Huws
Enillydd Gwobr Tir na n-Og 1992*
£2.50

**LLYFR GWNEUD PETHAU GWYRDD**
addas. Dylan Williams
£2.50

***CYFRES CLED***

**Y SLING**
Emily Huws
£2.50

**'TISIO BET?**
Emily Huws
£2.50

***CYFRES GWREIDDIAU***

**DIAL Y MÔR**
Gweneth Lilly
£3.25

**GLAS YW LLIW YR AWYR**
Jean Little
£3.95

## I BOBL IFANC AC OEDOLION

**BROC MÔR**
Gwen Redvers Jones
Enillydd Gwobr Tir na n-Og 1992*
£3.25

**ONI BAI AM BEDWYR**
addas. Elin Dalis
£4.25

**YR OGOF**
T. Rowland Hughes
Argraffiad newydd
£6.50

**TYNNU LLWCH**
Robin Williams
£3.75

**PYMTHEG DINAS**
R. Emyr Jones
£3.95

**STORÏAU'R TIR**
D. J. Williams
Argraffiad newydd
£4.95

**CASGLIAD O YSGRIFAU T. H. PARRY-WILLIAMS**
Argraffiad clawr meddal newydd £10.00

**DAN Y WENALLT**
Trosiad T. James Jones
Mae'r argraffiad newydd hwn o ddrama enwog Dylan Thomas yn cynnwys lluniau lliw o'r fersiwn cartŵn a ddarlledwyd yn ddiweddar.
£7.95 c.c. £4.95 c.m.

**COF CENEDL VII**
gol. Geraint H. Jenkins
£5.25

**SGLEFRIO AR EIRIAU**
gol. John Rowlands
£7.95

**0559 362371**

GOMER 100 1892 – 1992